# IS-BWYLLGOR CRAFFU (POLISI AC ADNODDAU) Y CABINET

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD – SIAMBR Y CYNGOR PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mawrth, 9 Ionawr 2024** |
| --- | --- |
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd P.Rogers** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd C.Jordan** |
| **Cynghorwyr**: | C.Galsworthy, R.G.Jones, R.Phillips, S.Pursey, C.Clement-Williams a/ac H.C.Clarke |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Griffiths, S.Rees, H.Jones, C.Owen, N.Blackmore a/ac N.Daniel |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr S.K.Hunt, S.A.Knoyle a/ac A.Llewelyn |

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cadarnhaodd y Cadeirydd na fyddai unrhyw eitemau o Fwrdd y Cabinet yn cael eu craffu.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2023 fel cofnod gwir a chywir.

4. **YMGYNGHORIAD AR GYLLIDEB 2024/25**

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad fel a nodwyd yn y pecyn agenda.

Amlinellodd y Cadeirydd y byddai'r sylwadau o’r cyfarfod yn llunio rhan o’r ymateb ffurfiol i’r ymgynghoriad ar y gyllideb. Atgoffwyd yr aelodau o'u rhwymedigaeth fel rhan o'r broses ymgynghori ar y gyllideb i gyflwyno unrhyw gynigion eraill ar gyfer arbedion cyllidebol nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, fel y gall swyddogion eu hystyried cyn gynted â phosib.

Atgoffwyd yr aelodau y dylent ystyried yr elfennau o'r gyllideb sy'n dod o dan gylch gorchwyl y pwyllgor craffu hwn.

Aeth yr Aelodau drwy'r llinellau cyllideb perthnasol.

Holodd yr Aelod a oedd unrhyw adborth gan y cyhoedd ynghylch cau'r desgiau arian parod. Cadarnhawyd na chafwyd unrhyw adborth gan y cyhoedd. Amlinellodd swyddogion y trefniadau amgen sydd ar waith.

Cadarnhaodd swyddogion y bydd cymorth AD yn cael ei ddarparu i rai o'r prosiectau adfywio allanol. Er enghraifft, Porthladdoedd Rhydd, ac ailgodir tâl am hyn fel y bo'n briodol.

Gofynnodd yr Aelod am gadarnhad ynghylch y sefyllfa o ran colli swyddi. Cadarnhaodd swyddogion y bydd swyddi'n cael eu colli, ond ni fydd unrhyw effaith ar y staff presennol. Ni fydd unrhyw ddeiliaid swyddi presennol yn colli eu swyddi. Os bydd unrhyw bwysau ar dimau o ganlyniad, bydd hyn yn cael ei reoli drwy reoli newid.

Amlinellodd swyddogion y cynigion ar gyfer gwneud y gorau o wasanaethau yn y Swyddfa Gofrestru. Roedd yr aelodau'n falch o weld syniadau arloesol yn cael eu defnyddio.

Dywedodd swyddogion wrth yr aelodau fod ffïoedd yn ymwneud â thrwyddedau yn orfodol ledled Cymru.

Gofynnodd yr Aelodau eglurder o ran ailgodi tâl am y gwasanaethau a nodwyd. Cadarnhaodd Swyddogion fod nifer y ceisiadau i'r Cyngor ymgymryd â gwaith cyfreithiol ar faterion annadleuol ar gyfer sefydliadau, er enghraifft Cynghorau Tref a Chymuned, wedi cynyddu. O ganlyniad bydd yr awdurdod yn ailgodi tâl am y gwaith hwn.

Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth ynghylch ailddyrannu cyllid Cyd-bwyllgor Corfforedig De Orllewin Cymru (CBC). Cadarnhawyd

bod y Cyngor yn darparu nifer o wasanaethau i'r CBC. Yn flaenorol, mae'r symiau o arian a dderbyniwyd ar gyfer y gwasanaethau hyn wedi'u rhoi mewn cyfrif cyffredinol, fodd bynnag bydd y symiau hyn yn awr yn cael eu hystyried yn incwm parhaus o safbwynt cyllidebu.

O ran yr adolygiad o ffonau symudol, bydd hwn yn ystyried ffonau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n llawn. Mae yna hefyd adolygiad parhaus o lungopiwyr, a lle mae nifer yr argraffiadau'n werth llai na £3000 y flwyddyn, bydd copïwyr yn cael eu tynnu.

Cadarnhawyd bod incwm yn ymwneud â Chytundebau Lefel Gwasanaeth yn ymwneud â sefydliadau allanol. Bydd Cytundebau Lefel Gwasanaeth ychwanegol hefyd yn cael eu rhoi ar waith mewn perthynas â theledu cylch cyfyng a fydd yn arwain at incwm ychwanegol.

Nodwyd y bydd premiymau Treth y Cyngor ar ail gartrefi yn cael eu hystyried gan y Cabinet ym mis Mawrth. Mae swyddogion wedi bod yn ochelgar o ran incwm posib yr eitem hon, os caiff ei chymeradwyo gan y Cabinet. At ddibenion y polisi, ystyrir bod y tymor hir yn flwyddyn o leiaf.

Ni chyflwynwyd unrhyw gynigion cyllideb ychwanegol gan yr aelodau yn y cyfarfod.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

5. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Ni chraffwyd ar unrhyw eitemau.

6. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

7. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

8. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Ni chraffwyd ar yr eitem hon.

9. **CRAFFU AR EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Ni chraffwyd ar unrhyw eitemau preifat.

**CADEIRYDD**